**GWEITHREDU SY’N DEILLIO O GYFARFODYDD BLAENOROL EDC-02-00(p1)**

| Pwynt Gweithredu | Manylion diweddaraf | Wedi’i gwblhau? |
|---|---|---|
| **17 Tachwedd** | | |
| 1. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a’r Pwyllgor Monitro i gyflwyno model o sut y gallai arweiniad gan lywodraeth leol weithio yn ymarferol **(Eitem 3 Gweithredu)**<br><br>**GWEITHREDU: CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU A’R PWYLLGOR MONITRO** | Disgwyl i’r pwyllgor monitro gael ei sefydlu | |
| 2. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ddarparu papur ar lefelau presennol yr ymrwymiad ar draws llinellau’r gyllideb datblygu economaidd (gan gynnwys manylion cyllidebau CDBC a’r Ffordd i Ffyniant)<br><br>3. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ddarparu papur ar lefelau hanesyddol, presennol a disgwyliedig yr arian cyfatebol ar draws llinellau’r gyllideb datblygu economaidd a chyllidebau eraill y Cynulliad **(Eitem 5 Ystyried Cyllideb y Cynulliad)**<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Yr Ysgrifennydd Cynulliad i roi diweddariad | |
| **I Rhagfyr** | | |
| 4. Y Cadeirydd a’r Clerc i drafod sut y gellid ychwanegu TGCh at y flaen-raglen waith **(Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod ar 17 Tachwedd)**<br><br>**GWEITHREDU: Y CADEIRYDD A’R CLERC** | Y flaenraglen waith i’w hystyried ar 9 Chwefror. | **Do** |

| | | |
|---|---|---|
| 5. Yr oedd y Pwyllgor yn dymuno ystyried materion yn ymwneud â chanolfannau galw, yn arbennig yr agweddau iechyd a diogelwch. Hefyd perthynas y Cynulliad â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. **(Eitem 3 Adroddiad Yr Ysgrifennydd Cynulliad)**<br><br>**GWEITHREDU: YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | Papur yn cael ei baratoi. | **Do** |
| 6. Y Pwyllgor i ystyried y Cynllun Datblygu Gwledig os oes modd **(Eitem 4 Diweddariad Gweithredu)**<br><br>**GWEITHEDU:YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | I'w ystyried ar 9 Chwefror | **Do** |
| 7. Panel yr Economyddion i ddarparu adroddiad yn cynnwys esboniad mwy eglur o'r targedau a nodir yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol<br><br>8. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ystyried data i fonitro newidiadau ar lefel ranbarthol ynghyd â dangosyddion i fonitro mesurau cynaladwyedd (yn hytrach na thargedau) **(Eitem 5 Targedau)**<br><br>**GWEITHREDU: PANEL YR ECONOMYDDION**<br><br>9. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ymgynghori â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i weld faint fyddai'r gost o dderbyn ffigurau blynyddol ar gyfer CMC yng Nghymru gyfan ac ar gyfer ardaloedd NUTS2 o fewn amserlen fyrrach<br><br>10. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i baratoi briff ar yr astudiaeth sy'n mynd rhagddi ym Mangor ar ddata sylfaenol ar gyfer targedau ar gydraddoldeb **(Eitem 5 Targedau)**<br><br>**GWEITHREDU:YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Bydd trafodaethau pellach yn cael eu trefnu ar gyfer y flwyddyn newydd<br><br>Angen ystyriaeth bellach, gan gynnwys cysylltiadau â'r Cynllun Datblygiad Cynaliadwy<br><br>Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried y cais<br><br>EDC-02-00 (p5) | **Do**<br><br>**Do** |

| | | |
|---|---|---|
| 11. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i weld a ellir ymestyn y cynllun gofal plant ar gyfer pobl sy'n cychwyn busnes i gynnwys pobl anabl **(Eitem 6 Cymorth gweithredu)**<br><br>**GWEITHREDU:YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Yr YC i roi diweddariad | |
| 12. Allan Moss i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor os bydd ardaloedd Amcan 1 eraill yn cefnogi'r cynllun lleddfu Yswiriant Gwladol **(Eitem 6 Cymorth gweithredu)**<br><br>**GWEITHREDU:ALLAN MOSS** | Nodyn yn cael ei ddosbarthu yr wythnos hon. | |
| 13. Tom Middlehurst i'w wahodd i'r Pwyllgor i drafod swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarthol a materion eraill yn ymwneud ag ETAG o fewn cylch gwaith y Pwyllgor (medrau, Buddsoddwr mewn Pobl etc) **(Eitem 7 ETAG)**<br><br>**GWEITHREDU: YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | Gwahoddwyd Tom Middlehurst i'r cyfarfod ar 26 Ionawr | **Do** |
| **15 Rhagfyr** | | |
| 14. Cynnal cyfarfod ychwanegol (ar y cyd â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol) ym mis Ionawr i edrych ar bapur sy'n nodi prif gynnwys y cytundebau rhwng CDBC a'r cyrff olynol. Edrych hefyd ar ba arbenigedd sydd gan Gyngor Dinas Caerdydd i gymryd y cyfrifoldeb o redeg y Morglawdd, gan sicrhau ansawdd y dr a diogelwch **(Eitem 2 CDBC)**<br><br>**GWEITHREDU: YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | Cynhaliwyd ar 20 Ionawr | **Do** |
| 15. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i gynnig i'r Cabinet y dylai'r Gorchymyn i ddirwyn CDBC i ben fod yn genedlaethol ac nid yn lleol gan fod iddo oblygiadau o ran y gylideb sy'n effeithio ar Gymru gyfan. **(Eitem 2 CDBC)**<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Yn gyfreithiol roedd rhaid i'r Gorchymyn fod yn un lleol. Ystyriwyd gorchmynion drafft ar 20 Ionawr | **Do** |
| 16. Newid paragraff 5.6 o 'Helen Mary Jones' i 'cofnodwyd y ffaith bod aelodau Plaid Cymru …' | Nodwyd y diwygiad | **Do** |
| 17. Dylid rhoi **[Gweithredu: Yr Ysgrifennydd Cynulliad]** ar ddiwedd pwynt bwled olaf paragraff 4.2 | Nodwyd y diwygiad | **Do** |

| | | |
|---|---|---|
| 18. Y Cadeirydd i hysbysu aelodau'r Pwyllgor erbyn diwedd yr wythnos o'r manylion diweddaraf yn dilyn ei chyfarfod â Rhodri Morgan, Cynog Dafis a Tom Middlehurst ar 15 Rhagfyr i drafod y cynigion ar gyfer y ddadl ar ETAG yn y Cyfarfod Llawn. **(Eitem 3 Cofnodion 1 Rhagfyr)**<br><br>**GWEITHREDU: YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar 16 Rhagfyr | **Do** |
| • Yr Ysgrifennydd Cynulliad i baratoi adroddiad ym mis Ionawr yn dilyn trafodaethau anffurfiol gyda Hyder yn canolbwyntio ar bwysigrwydd y cwmni i'r sector preifat yng Nghymru ac yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gadw rheolaeth y cwmni yng Nghymru. **(Eitem 4 Adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad)**<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Yr Ysgrifennydd Cynulliad i roi diweddariad | |
| 20. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu Ysgrifenyddiaeth a fyddai'n cynnwys cynrychiolaeth barhaol o Asiantaethau â chanddynt gyfrifoldebau trawsbynciol (gan gynnwys Bwrdd Croeso Cymru).<br><br>21. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried ysgrifennu at awdurdodau lleol (a phartneriaid eraill sy'n arwain pecynnau cenedlaethol) i nodi disgwyliadau'r Cynulliad mewn perthynas â'r egwyddor o "1/3: 1/3: 1/3 ".<br><br>22. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i adrodd i'r Pwyllgor ar yr ymateb i'r llythyr a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr ar y Pwyllgor Monitro.<br><br>23. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cynigion ar gyfer gwerthuso. **(Eitem 5 Cronfeydd strwythurol)**<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Yr Ysgrifennydd Cynulliad i roi diweddariad<br><br>YC wedi ysgrifennu – llythyr ynghlwm<br><br>Yr Ysgrifennydd Cynulliad i roi diweddariad | **Do** |

| | | |
|---|---|---|
| 24. Y Cadeirydd a'r Clerc i ystyried trefnu sesiwn briffio anffurfiol gan y swyddogion ar gyfer yr aelodau ar broses y gyllideb<br><br>25. Y Pwyllgor i ddychwelyd at y gyllideb ym mis Ionawr. Y Cadeirydd a'r Clerc i gynnwys hyn yn y rhaglen<br><br>26. Y Pwyllgor i ail-edrych ar gwestiwn y Cronfeydd Adfywio.<br><br>27. Nodwyd yr angen i edrych ar gadwyni cyflenwi yn fanylach **(Eitem 6 Ystyried Cyllideb y Cynulliad)**<br><br>**GWEITHREDU: CADEIRYDD A'R CLERC**<br><br>28. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried cynnwys cyfeiriad at gymorth grant ar gyfer lleoedd bwyta yn y canllawiau strategol a ddosberthir i'r Bwrdd Croeso.<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | I'w drefnu ar gyfer dechrau tymor yr haf er mwyn paratoi ar gyfer y rownd gyllideb nesaf<br><br>26 Ionawr<br><br>Bydd yn cael ei ystyried ar 9 Chwefror<br><br>I'w gynnwys yn yr arolwg o Gymorth a Datblygiad Busnes<br><br>Yr Ysgrifennydd Cynulliad i roi diweddariad | **Do**<br><br>**Do** |
| 29. Y Clerc i ddosbarthu swydd ddisgrifiad drafft ar gyfer ymgynghorydd allanol a phapur ar y drefn benodi i'r aelodau roi eu sylwadau arno.<br><br>30. Y Clerc i lunio amserlen fanwl ar gyfer yr adolygiad **(Eitem 7 Arolwg Cymorth Busnes)**<br><br>**GWEITHREDU: Y CLERC A'R AELODAU** | Dosbarthwyd 23 Rhagfyr<br><br>I'w lunio ar y cyd â'r ymgynghorydd arbenigol | **Do**<br><br>**Do** |